POLISI RHEOLI RISG

Adolygwyd	Cymeradwywyd	Mabwysiadwyd
16/09/2026	16/09/2026 Cyf. Cofnod: 106/2627	16/09/2026

Statws	Wedi'i adolygu, ei gymeradwyo a'i fabwysiadu gan y Cyngor Llawn
Fersiwn	1.0
Paratowyd	24 Awst 2026 (NT)
Perchennog y Polisi	Y Cyngor Llawn
Arweinydd Gweithredol	Y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol
Adolygiad Nesaf	12 mis ar ô lei fabwysiadu, neu'n gynharach os bydd newid sylweddol

1. Pwrpas

Mae'r Cyngor yn cydnabod na ellir dileu risg yn gyfan gwbl, ond gellir ei deall a'i rheoli. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl swyddogaethau, asedau, prosiectau, contractau, partneriaethau, digwyddiadau a phenderfyniadau'r Cyngor. Mae'n cefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac nid yw'n cymryd lle asesiadau iechyd a diogelwch sy'n benodol i weithgarwch.

2. Cyfrifoldebau

2.1 Y Cyngor Llawn sy'n berchen ar y fframwaith rheoli risg, yn cymeradwyo'r gofrestr risg ac yn penderfynu faint o risg mae'n fodlon ei derbyn.

2.2 Mae pwyllgorau'n adolygu risgiau sy'n berthnasol i'w cylch gwaith ac yn argymell camau gweithredu neu uwchgyfeirio os oes angen.

2.3 Mae'r Clerc/SAC yn cynnal y gofrestr gorfforaethol, yn adrodd ar newidiadau sylweddol ac yn sicrhau bod y rheolaethau y cytunwyd arnynt yn cael eu dilyn.

2.4 Rhaid i gynghorwyr ac unrhyw un sy'n gweithio ar ran y Cyngor roi gwybod yn brydlon am risgiau newydd, digwyddiadau a methiannau mewn rheolaethau.

2.5 Mae'r archwilydd mewnol yn asesu pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r trefniadau rheoli risg, ond nid ef sy'n eu rheoli na'u gweithredu.

3. Categoriau Risg

3.1 Llywodraethu a chydymffurfiaeth gyfreithiol;

3.2 Cyllid, twyll a gwerth am arian;

3.3 Iechyd, diogelwch a diogelu;

3.4 Asedau, eiddo, mynwent, parciau a darparu gwasanaethau;

3.5 Pobl, cyflogaeth a gallu'r sefydliad;

3.6 Llywodraethu gwybodaeth, seiberddiogelwch a pharhad busnes;

3.7 Yr amgylchedd, hinsawdd a bioamrywiaeth;

3.8 Enw da, hyder y gymuned a phartneriaethau.

4. Dull Asesu

Rhoddir sgôr i bob risg am ei thebygolrwydd a'i effaith ar raddfa o 1 i 5. Y sgôr gros yw'r sefyllfa cyn rhoi rheolaethau ar waith; y sgôr weddilliol yw'r sefyllfa ar ôl ystyried y rheolaethau sydd eisoes mewn lle. Caiff y sgôr ei gyfrifo drwy luosi'r tebygolrwydd â'r effaith.

Sgôr	Graddfa	Ymateb Gofynnol
1–4	Isel	Rheoli drwy drefniadau arferol; adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn.
5–9	Cymedrol	Penodi perchennog a monitro; ystyried rheolaethau ychwanegol.
10–14	Uchel	Mae angen cynllun gweithredu a dyddiad targed; adrodd i'r pwyllgor perthnasol neu'r Cyngor Llawn.
15–25	Critigol	Uwchgyfeirio ar unwaith i'r Cadeirydd a'r Clerc; gweithredu brys gan y Cyngor a threfniadau wrth gefn.

5. Cofrestr Risg

Rhaid i'r gofrestr gorfforaethol gynnwys digon o wybodaeth i ddeall a monitro pob risg. Gellir cadw manylion gweithredol sensitif mewn atodiad rheoledig, tra gall fersiwn ddi-sensitif gael ei chyhoeddi.

Maes Gofynnol	Beth i'w Gofnodi
Risg	Achos, digwyddiad a'r canlyniad posibl.
Perchennog	Y swyddog, pwyllgor neu arweinydd cyfrifol am oruchwylio.
Sgôr	Tebygolrwydd, effaith a chyfanswm cyn rhoi rheolaethau ar waith.
Rheolaethau presennol	Y rheolaethau sydd eisoes mewn lle, ynghyd â thystiolaeth.
Sgôr weddilliol	Tebygolrwydd, effaith a chyfanswm ar ôl rhoi rheolaethau ar waith.
Camau pellach	Camau priodol, perchennog, dyddiad targed a chynnydd.
Adolygiad	Dyddiad yr adolygiad diwethaf, yr adolygiad nesaf a'r cyfeiriad teithio.

6. Adolygu ac Uwchgyfeirio

6.1 Bydd y Cyngor Llawn yn cymeradwyo'r gofrestr o leiaf unwaith y flwyddyn ac cyn cwblhau'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

6.2 Bydd risgiau uchel a chritigol yn cael eu hadolygu o leiaf bob chwarter nes eu bod wedi'u lleihau neu wedi'u derbyn yn ffurfiol.

6.3 Rhaid ystyried risg cyn ymrwymo i brosiectau, contractau, gwasanaethau neu ddigwyddiadau newydd.

6.4 Bydd digwyddiad difrifol, methiant mewn rheolaeth, newid cyfreithiol neu amrywiad ariannol sylweddol yn sbarduno adolygiad ar unwaith.

6.5 Rhaid i unrhyw benderfyniad i dderbyn risg weddilliol uchel neu gritigol fod yn glir, wedi'i resymu a'i gofnodi yng nghofnodion y corff sydd â'r awdurdod i'w dderbyn.

7. Ffynonellau a Dogfennau Cysylltiedig

Dylid darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â pholisïau eraill y Cyngor sydd wedi'u mabwysiadu ac â'r fersiynau diweddaraf o'r ffynonellau isod. Os bydd y gyfraith neu ganllawiau statudol yn newid, bydd y gofyniad cyfredol yn drech.

7.1 Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014:
https://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/3362/body

7.2 Pecynnau cymorth a chanllawiau Un Llais Cymru:
https://www.onevoicewales.wales/publications/toolkits-guides-for-local-councils/

7.3 Canfyddiadau Cynghorau Cymuned Archwilio Cymru:
https://www.audit.wales/news/significant-challenges-community-councils-found-audit-work

8. Cymeradwyo ac Adolygu

Daw'r ddogfen hon i rym pan gaiff ei mabwysiadu drwy benderfyniad y Cyngor Llawn. Bydd y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol (SAC) yn cofnodi'r dyddiad mabwysiadu a chyfeirnod y cofnod, yn trefnu ei chyhoeddi lle bo'n briodol, yn rhoi gwybod i'r bobl berthnasol ac yn rhoi'r adolygiad nesaf ar y gofrestr bolisïau.